# Y Pwyllgor Deisebau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 11 Hydref 2011** |
| Amser: | **09:30 – 10:45** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_11_10_2011&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Powell (Cadeirydd)**<br>**Russell George**<br>**Joyce Watson** |
| Tystion: | **Jane Hutt, Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Ty, Minister for Finance and Leader of the House**<br>**Jackie Nicholls, Equality Policy Manager – Disability & Age**<br>**Huw Brodie, Director of Strategic Planning & Equality** |
| Staff y Pwyllgor: | **Abigail Phillips (Clerc)**<br>**Sarita Marshall (Dirprwy Glerc)**<br>**Helen Roberts (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Bethan Jenkins. Nid oedd neb yn dirprwyo ar ei rhan.

### 2. Deisebau newydd

2.1 P-04-333 Rhoi diwedd ar esgeuluso a gadael ceffylau a merlod drwy orfodi deddfwriaeth ar ddefnyddio microsglodion.

Cytunodd y Pwyllgor i:
aros am ymateb y Gweinidog i'r llythyr gan y Cadeirydd; a
gohirio'r broses o drafod y mater hwn tan ar ôl i'r galwad am dystiolaeth ddod i ben ar 18 Tachwedd.

2.2 P-04-334 Uned Arennol Newydd yn Ysbyty Tywysog Siarl

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Cwm Taf; Cyngor Iechyd Cymunedol Cwm Taf; a Sefydliad Aren Cymru i geisio eu barn am y ddeiseb hon.

2.3 P-04-335 Sefydlu Tîm Criced Cenedlaethol i Gymru

Cytunodd y Pwyllgor i ohirio'r broses o drafod y mater hwn tan ar ôl y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tystiolaeth ar 18 Tachwedd.

2.4 P-04-336 Papur Cymraeg dyddiol i Gymru

Cytunodd y Pwyllgor i aros am ymateb y Gweinidog.
2.5 P-04-337 Tenovus: Eli haul am ddim

Cytunodd y Pwyllgor i:
ysgrifennu at Gomisiynydd Plant Cymru am y mater hwn; a
chyfeirio'r ddeiseb at y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

2.6 P-04-338 Deiseb ynghylch ymdrech Severn Trent Water i werthu Ystâd Llyn Efyrnwy

Cyhoeddodd Joyce Watson ei bod yn aelod o'r RSPB.

Cytunodd y Pwyllgor i:
ysgrifennu at y deisebwyr yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am eu cyfarfod â Severn Trent Water;
ysgrifennu at y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i ofyn am fanylion cylch gorchwyl y grŵp gorchwyl a gorffen a gaiff ei sefydlu i edrych ar brosesau gwerthu o'r fath.
ysgrifennu at Severn Trent Water i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am gyfarfodydd a gynhaliwyd â'r gymuned leol.
ysgrifennu at y Gweinidog Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy i geisio ei farn am y broses o werthu a gofyn sut y mae'n bwriadu monitor materion amgylcheddol a allai godi o ganlyniad i werthu'r ystâd; ac
ysgrifennu at y Gweinidog Busnes a Menter i ofyn am ei barn am y broses o werthu a gofyn sut y mae'n bwriadu monitor materion economaidd a allai godi o ganlyniad i werthu'r ystâd.

## 3. Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

3.1 P-04-321 Gwasanaethau Trenau Arriva Cymru rhwng de-orllewin Cymru a de-ddwyrain Cymru

Cytunodd y Pwyllgor i ystyried y ohebiaeth ddiweddaraf gan y deisebwr yn ei gyfarfod nesaf.

3.2 P-03-220 Gostyngwch y terfyn cyflymder ar yr A40 ger y Fenni

3.3 P-03-240 Diogelwch ar ffordd yr A40 yn Llanddewi Felffre

Cytunodd y Pwyllgor i:
aros am gasgliadau adolygiad y Gweinidog o derfynau cyflymder ar gefnffyrdd; ac

anfon ymateb y Gweinidog at y deisebwyr a rhoi gwybod iddynt y bydd y Pwyllgor yn dychwelyd at eu deiseb ar ôl clywed casgliadau'r adolygiad.

3.4 P-03-205 Cadwch Farchnad Da Byw y Fenni

Cytunodd y Pwyllgor i:
ohirio'r broses o drafod y ddeiseb hon tan bod ymgynghoriad y Gweinidog ar ddiddymu darpariaethau perthnasol Deddfau Gwella'r Fenni 1854-1871 wedi dod i ben; ac
anfon yr holl dystiolaeth y bydd y Pwyllgor yn ei chael ar y ddeiseb hon at y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, yn unol â chais gan y deisebwr.

3.5 P-03-261 Atebion lleol i dagfeydd traffig yn y Drenewydd

Cytunodd y Pwyllgor i ddod yn ôl at y ddeiseb hon, yn ogystal â deiseb P-04-319, yn ei gyfarfod nesaf.

3.6 P-03-156 Dal anadl wrth gysgu

Cytunodd y Pwyllgor i:
ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn iddi roi sicrwydd y bydd arian digonol yn cael ei glustnodi ar gyfer safonau gofynnol grŵp cynghori'r gwasanaethau cenedlaethol ar anadlu yn y cylch cyllideb sydd i ddod, a rhoi gwybod i'r deisebwr am y cam hwnnw; a chau'r ddeiseb, o ystyried y lefelau o gydymffurfio a nodwyd gan y Gweinidog.

3.7 P-03-260 Yr Ymgyrch dros Ffurfafen Dywyll

Cytunodd y Pwyllgor i:
nodi barn y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau ynghylch yr angen am olau digonol a chanllawiau'r Gweinidog i awdurdodau lleol ynghylch lleihau llygredd golau; a
chau'r ddeiseb.

3.8 P-03-305 Llyfrgelloedd Ysgol Statudol

Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb.

3.9 P-03-263 Rhestru Parc y Strade

Cytunodd y Pwyllgor i baratoi adroddiad byr, gan ddod a gwahanol agweddau ar y ddeiseb ynghyd.

3.10 P-04-322 Galw am ryddhau gafael Cadw ar eglwysi

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y deisebwyr, gan gynnwys yr ohebiaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth er mwyn gofyn iddynt sut yr hoffent symud ymlaen.

3.11 P-03-308 Achub Theatr Gwent

3.12 P-03-311 Theatr Spectacle

3.13 P-03-314 Achub Theatr Powys a Theatr Ieuenctid Canolbarth Powys

Cytunodd y Pwyllgor i aros am ganlyniad adolygiad y Gweinidog o brofiadau pobl ifanc o'r theatr.

3.14 P-04-328 Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau: Cynigion i foderneiddio gwasanaethau gwylwyr y glannau

Dywedodd Joyce Watson ei bod wedi lobio i gadw Canolfan Cydgysylltu Achub ar y Môr Aberdaugleddau ar agor.

Cytunodd y Pwyllgor i wahodd y deisebwyr i roi tystiolaeth lafar.
3.15 P-03-262 Academi Heddwch Cymru

Cytunodd y Pwyllgor i gyhoeddi galwad am dystiolaeth ar y mater hwn.

## 4. Tystiolaeth lafar ar P-03-288 Strategaeth Genedlaethol ar Fyw'n Annibynnol - Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Ty

## 5.

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ.

Cytunodd y Pwyllgor i ofyn i'r deisebwyr am eu hymateb i gyhoeddiad y Gweinidog ar Fframwaith Gweithredu ar Fyw'n Annibynnol, a'u hannog i ymgysylltu â'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith hwnnw.

## 6. Papurau i'w nodi

Nododd y Pwyllgor y papurau.

## Trawsgrifiad

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.